# Cofnodion Cyngor Cymuned Pistyll

a gynhaliwyd yn Y Ganolfan Llithfaen
Nos Fawrth, 9fed o Hydref, 2018 am 7:00 y.h.



Cadeirydd y Cyfarfod: Y Cyng. Griffith John Lesley Jones

**Yn Bresennol -** Cynghorwyr - Lisbeth James (LJ), Sianelen Pleming (SP), Sara Williams (SW), Olwen Roberts (OR), John Owen (JO), Gwilym Williams (GW), Griffith Jones (GJ), William Jones (WJ), Emlyn Hughes (EH),Ynyr Ellis (YE) a’r Cyng. Aled Jones (AJ).

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1.** | | | **Hysbysiadau'r Cadeirydd**<br>Croesawyd pawb gan y Cadeirydd gyda chroeso arbennig i'r Clerc i’w chyfarfod cyntaf. |
| **2.** | | | **Ymddiheuriadau**<br>Dim. |
| **3.** | | | **Datgan Diddordeb**<br>Dim. |
| **4.** | | | **Diweddariadau asedau**<br>GW eisoes wedi gadael i’r contractwyr wybod bydd ddim angen toriad arall yn y fynwent tan y flwyddyn nesaf. |
| **5.** | | | **Cofnodion Cyfarfod 11eg o Fedi, 2018** |
| | ***5.1*** | | **Cyflwyno a mabwysiadu**<br>Cynigodd GJ fod cofnodion y 11eg o Fedi, 2018 yn gywir. Eiliodd JO ac fe’u mabwysiadwyd. |
| | ***5.2*** | | **Materion yn codi** |
| | | ***5.2.1*** | **Wal y ffordd i Nant Gwrtheyrn**<br>SP dal i ddisgwyl pris gan Dylan, am adrodd ar gynnydd yn cyfarfod Tachwedd. |
| | | ***5.2.2*** | **Mynwent Pistyll**<br>LJ wedi methu cysylltu â Richard, am adrodd ar gynnydd yn cyfarfod Tachwedd. |
| | | ***5.2.3*** | **Cerrig Milltir Blwyf Pistyll**<br>Y Clerc i holi Eurwyn Griffith y cyn Clerc os bo cynnydd ganddo. |

*Clerc Cyngor Cymuned Pistyll: Gillian Thomas*
*1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon Gwynedd. LL54 7HP*
*E.bost: ccpistyll@outlook.com*
*Ffôn symudol: 07979438307*

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | *5.2.4* | **Biniau Halen**<br>Neges e. bost gan Glŷn Titus i ymwneud a gosod bin halen Pistyll, wedi ei gylchredeg o flaen llaw ar bin halen yn ei le erbyn hyn. |
| | | *5.2.5* | **Goryrru trwy Lithfaen**<br>Y Clerc i ymholi Eurwyn Griffith ar gynnydd hefyd yr Heddlu lleol i ofyn iddynt yrru Swyddog ar lefel uwch yn arbenigo mewn trafnidiaeth i'r cyfarfod ym mis Tachwedd. |
| | | *5.2.6* | **Crac yn y Bont**<br>Yn llaw'r Cyngor |
| **6.** | | | **Canolfan Llithfaen**<br>Trwydded Barcio Tŷ'r Ysgol **-** Adroddodd SP ei bod yn trafod yr opsiynau o ran y ffordd ymlaen ac Adran Gyfreithiol ac Eiddo'r Cyngor Sir ond fod dim ymateb gan Catrin hyd yn hyn; SP am adrodd ar gynnydd yn cyfarfod Tachwedd. |
| **7.** | | | **Defibrillator i'r pentref**<br>LJ yn cynnig fod y pentref yn gwneud pob ymdrech i godi arian. SP am adrodd yn gyfarfod Tachwedd ar y datblygiadau ariannol. Bydd rhaid penderfynu eto ar y lleoliad. |
| **8.** | | | **Tir Comin a Maes Parcio wrth fynedfa Nant Gwrtheyrn**<br>SP i adrodd yn ôl i'r Cyngor pan fydd cynnydd yn yr ymchwil. |
| **9.** | | | **Y Clerc**<br>Cytunwyd y bydd y Clerc yn derbyn 17c am brintio a ffotocopïa, ac y byddi yn gwneud pob ymdrech i fynegi pob hyfforddiant perthnasol. |
| **10.** | | | **Ceisiadau Cynllunio** |
| | **10.1** | | **Cais Rhif: C18/0839/43/LL 03/10/2018**<br>Bwriad: Adeiladu tŷ annedd fforddiadwy a modurdy, creu mynedfa gerbyd, gosod tanc tanwydd<br>Lleoliad: Tir ger / Land by Gwelfor, Llithfaen, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6NS<br><br>Cytunwyd doedd dim gwrthwynebiad i'r cais ond mae pryder am leoliad y fynedfa, angen iddo fod ymhellach o'r tro yn y ffordd.<br>Y Clerc am hysbysebu'r adran briodol o Gyngor Gwynedd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **11.** | | | **Materion Lleol a gyflwynwyd o flaenllaw** |
| | **11.1** | | **Cynnig fod cyfarfodydd y Cyngor yn dechrau am 7:00**<br>Cytunwyd pawb. |
| | **11.2** | | **Pryderon am geisiadau cynllunio Plas Pistyll**<br>LJ yn cynnig a phawb yn cytuno bod angen ysgrifennu llythyr i'r Prif Weithredwr, Cyngor Gwynedd yn gofyn:<br>• Paham for y cynlluniau gwreiddiol wedi newid cymaint i beth cafwyd ei basio gan y Cyngor Cymuned.<br>• Paham fod y Cyngor Cymuned ddim wedi derbyn ceisiadau am y newidiadau?<br><br>Y Clerc i'w drefnu |
| **12.** | | | **Gohebiaeth** |
| | ***12.1*** | | **Grant Cist Gymunedol**<br>Wedi ei gylchredeg o flaen llaw, dim sylw. |
| | ***12.2*** | | **Bin halen Pistyll**<br>Gweler pwynt 5.2.4 |
| | ***12.3*** | | **Prosiect Plas Carmel yn Anelog, ger Aberdaron - Cais am gymorth ariannol.**<br>Cytunwyd er bo'r Cyngor Cymuned yn cefnogi'r prosiect, mae'n bolisi'r Cyngor i beidio rhoi cefnogaeth ariannol i brosiectau tu allan i'r gymuned. |
| | ***12.4*** | | **Ymgynghoriad Cyngor Gwynedd - Pa wasanaethau sy'n bwysig i chi**<br>Wedi ei gylchredeg o flaen llaw a'r gwybodaeth gan Cyngor Gwnedd wedi ei roi ar hysbysfwrdd y pentref - penderfynwyd bydd yr aelodau yn ei gwblhau fel unigolion.<br><br>Bydd LJ yn cynrychioli'r Cyngor Cymuned ar Gyngor Pobl Hŷn Gwynedd ym Mhorthmadog. |
| | ***12.5*** | | **Bwletin Newyddion Un Llais Cymru**<br>Wedi ei gylchredeg o flaen llaw – dim sylw. |
| **13.** | | | **Cyllid** |
| | ***13.1*** | | **Adolygiad Chwarterol**<br>I gymryd lle Tachwedd 2018. |
| | ***13.2*** | | **Taliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod**<br>Dim |

**Cyfarfod nesaf - nos Fawrth, 13eg o Dachwedd am 7:00 y.h.**

*Clerc Cyngor Cymuned Pistyll: Gillian Thomas*
*1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon Gwynedd. LL54 7HP*
*E.bost: ccpistyll@outlook.com*
*Ffôn symudol: 07979438307*